**Canllawiau i aelodau a rhieni**

**Dewis iaith**


Bydd unigolion fel rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau hyn yn gallu defnyddio'r system i weld gweithgareddau sydd ar gael ac i archebu eu lle (neu lle i'w plant) ar y gweithgareddau a talu ffi (os yn berthnasol).

Cewch eich tywys i'r system drwy glicio ar linc gweithgaredd ar wefan yr Urdd. Mae'r system yn gweithio ar pob dyfais gan gynnwys dyfeisiadau symudol.

https://gweithgareddau.urdd.cymru/chwilio.a5w Cymraeg


https://gweithgareddau.urdd.cymru/search.a5w Saesneg

Eto, mae modd newid iaith unwaith yr ydych yn y system drwy glicio ar yr eicon byd a dewis iaith.




**Chwilio am weithgareddau**

Caiff yr unigolyn ei gyflwyno efo rhestr o weithgareddau sydd wedi eu creu.  Wrth glicio ar yr eicon 'i' ar ddiwedd y rhes cewch weld mwy o fanylion am y weithgaredd.






Mae'r pellter yn dibynnu os ydych chi wedi caniatáu i'r system weld eich lleoliad, os ydych yn gwrthod yna ni fydd y pellter yn gywir.  Mae blwch 'pop up' yn ymddangos wrth agor y sgrin am y tro cyntaf yn gofyn y cwestiwn hwnnw.

Gellir chwilio am weithgaredd penodol drwy glicio ar yr eicon chwyddwydr ar y dde a llenwi'r wybodaeth angenrheidiol – nid oes angen llenwi popeth.




Gellir chwilio drwy rhestr fel uchod, ar ffurf map neu galendr drwy glicio ar un o'r eiconau ar dop chwith y sgrin (nid ydi'r calendr ar gael ar gyfer ffonau symudol)






Gellir chwyddo’r map i weld manylion yr holl weithgareddau ond nid oes modd archebu drwy’r wedd hwn.

**Creu Cyfrif**


Rhaid clicio ar y weithgaredd ac yna clicio ar "Archebu" yn y gornel isaf dde.  Gwelwch y sgrin isod.




Dewis "Fy hun" os yn creu cyfrif fel aelod hyn 16+ oed


Dewis "Fy Mhlant" os yn creu cyfrif ar ran plentyn llai nag 16 oed


**Fy hun – ar gyfer aelodau oed 16 neu hyn yn unig**





Wrth glicio ar Ydw, cewch eich cyfeirio i'r dudalen mewngofnodi i rhoi eich enw defnyddiwr a chyfrinair mewn er mwyn cael mynediad i'ch cyfrif.

Y tro cyntaf fe fydd angen i bawb glicio ar Na a llenwi'r wybodaeth ar y sgrin isod.





Wrth glicio ar y chwydd wydr yn y maes Ysgol/Cangen gellir chwilio am y gangen drwy ddefnyddio'r sgrin isod.




Os ydych yn hapus i'r Urdd gysylltu a chi yna rhaid ticio'r blwch i ddynodi hynny, yna clicio ar "Nesaf" i barhau.


**Archebu Gweithgaredd**

Cliciwch ar “Archebu” er mwyn talu





Os ydi’r weithgaredd yn un lle bod rhaid bod yn aelod yna bydd rhaid i’r unigolyn rhoi eu rhif aelodaeth ar y sgrin nesaf.

Os ydych wedi archebu ar gyfer clwb, yna gallwch ddewis i ymuno a phob un sesiwn, neu ddewis rhai unigol os y gwyddech nad ydych ar gael ar gyfer rhai. **Noder, os oes tal ar gyfer y clwb, bydd rhaid talu am y clwb cyfan hyd yn oed os nad ydych yn dewis pob un.**




Clicio ar “Archebu” unwaith i’r holl wybodaeth gael ei roi fewn.

Gweler manylion y clwb a phob sesiwn sydd wedi cael ei dderbyn yn y fasged siopa.  Gallwch fynd ymlaen i archebu lle ar fwy o weithgareddau drwy ddilyn y camau uchod eto a thalu am bopeth efo'i gilydd unwaith i chi orffen.




Gweler manylion y clwb ar y top ynghyd a chost y clwb, a phob sesiwn sydd wedi ei dderbyn oddi tano efo cost o £0


**Fy Mhlant – ar gyfer unigolyn sy’n cofrestru am weithgaredd ar ran eu plant sydd yn ieuengach nag 16 oed**


Ar ôl dewis Fy Mhlant yn y sgrin blaenorol cewch y sgrin isod





Wrth glicio ar Ydw, cewch eich cyfeirio i’r dudalen mewngofnodi i rhoi eu enw defnyddiwr a chyfrinair mewn er mwyn cael mynediad i’ch cyfrif.

Y tro cyntaf fe fydd angen i bawb glicio ar Na a llenwi’r wybodaeth ar y sgrin isod.





Ar ôl clicio ar Nesaf, bydd rhaid ychwanegu un neu fwy o blant drwy glicio ar “Ychwanegu plentyn” isod.




Rhaid rŵan ychwanegu manylion am y plentyn hwnnw ar y sgrin nesaf





Ar ôl clicio ar “Cadw” i fynd ymlaen gallwch unai ddewis i ychwanegu plentyn arall neu glicio ar “Nesaf” i barhau i archebu gweithgaredd.




**Archebu Gweithgaredd**


Ar ôl gorffen ychwanegu pob plentyn a chlicio ar "Nesaf", cewch eich arwain i'r dudalen o weithgareddau eto, cliciwch ar "Archebu" er mwyn parhau efo'r broses.




| Gweithgaredd | Time | Dyddiad Cychwyn | Dyddiad Gorffen | Lleoliad | Pellter |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithgaredd gwyliau hanner tymor Hydref | 10:00 - 16:00 | 26/10/2020 | 26/10/2020 | Gwersyll Yr Urdd Glan-llyn, Llanuwchllyn, Bala | 52 mi |
| Hoci Bl 8 | 00:00 - 12:00 | 02/10/2020 | 30/10/2020 | 301 Gower Rd, Sketty, Swansea | 37 mi |
| Clwb Garddio | 00:00 - 12:00 | 09/10/2020 | 13/11/2020 | Gwersyll Yr Urdd Glan-llyn, Llanuwchllyn, Bala | 52 mi |
| Sgwrs fyw | 16:00 - 04:00 | 23/10/2020 | 27/11/2020 | 6b Bute Pl, Caerdydd | 54 mi |
| test | 14:13 - 02:13 | 03/11/2020 | 15/12/2020 | Gwersyll Yr Urdd Glan-llyn, Llanuwchllyn, Bala | 52 mi |
| Cyngerdd Ser y Sir | 18:00 - 21:00 | 01/05/2021 | 01/05/2021 | Wheat St, Brecon | 21 mi |
| Mynydda | 10:00 - 10:00 | 01/11/2020 | 29/11/2020 | 6b Bute Pl, Caerdydd | 54 mi |
| Y Sgwrs | 20:00 - 21:00 | 20/10/2020 | 24/11/2020 | Ar LEin | 52 mi |
| Clwb Cerdded | 14:10 - 02:10 | 01/11/2020 | 03/01/2021 | Aberffraw | 79 mi |
| Clwb Cerdded Ogwr | 10:00 - 12:00 | 18/10/2020 | 22/11/2020 | Brynmenyn, Pen-y-bont ar Ogwr | 41 mi |


Y tro yma, mae opsiwn i ddewis y plentyn cywir ar gyfer y weithgaredd, bydd enwau'r holl blant yr ydych wedi cofrestru yn ymddangos i'w dewis.  Os ydi'r weithgaredd yn un lle bod rhaid bod yn aelod yna bydd rhaid i'r unigolyn rhoi eu rhif aelodaeth ar y sgrin nesaf.

Os ydych wedi archebu ar gyfer clwb, yna gallwch ddewis i ymuno a phob un sesiwn, neu ddewis rhai unigol os y gwyddech nad ydych ar gael ar gyfer rhai.  **Noder, os oes tal ar gyfer y clwb, bydd rhaid talu am y clwb cyfan hyd yn oed os nad ydych yn dewis pob un.**




Clicio ar “Archebu” unwaith i’r holl wybodaeth gael ei roi fewn.

Gweler manylion y clwb a phob sesiwn sydd wedi cael ei dderbyn yn y fasged siopa. Gall yr unigolyn fynd ymlaen i archebu lle ar fwy o weithgareddau drwy ddilyn y camau uchod eto a thalu am bopeth efo’i gilydd.




Gweler manylion y clwb ar y top ynghyd a chost y clwb, a phob sesiwn sydd wedi ei dderbyn oddi tano efo cost o £0

Gellir mynd yn ôl i archebu ar gyfer mwy o weithgareddau cyn clicio ar Talu a mynd drwy'r broses Worldpay.

**Cadarnhau/Canslo gweithgaredd**

Unwaith y bydd taliad wedi ei gadarnhau bydd ebost yn cael ei anfon yn awtomatig i'r aelod hyn neu'r rhiant yn cadarnhau'r gweithgareddau.  Bydd linc yn yr ebost yn cyfeirio'r unigolyn yn ôl i'r weithgaredd er mwyn gallu gweld y manylion a rhoi'r opsiwn i ganslo'r weithgaredd os oes angen.

Pe bai rhiant yn canslo'r weithgaredd cânt ebost arall i gadarnhau hynny.  Bydd hefyd cofnod ar gyfrif staff yr Urdd bod y weithgaredd wedi ei ganslo.

**Mewngofnodi**

Unwaith yr ydych wedi creu cyfrif, gallwch fewngofnodi drwy ddefnyddio'r linc isod.  Eich enw defnyddiwr ydi'r cyfeiriad ebost a ddefnyddiwyd i greu cyfrif.

https://gweithgareddau.urdd.cymru/mewngofnodi.a5w

Wrth wneud hyn gallwch weld a newid eich manylion personol chi ac/neu eich plant, gweld y gweithgareddau yr ydych wedi eu harchebu yn barod ac archebu mwy o weithgareddau.

